



Scroll down for English version

MAE'R HAF WEDI CYRRAEDD AC MAE TIR COED YN ÔL WRTH EI WAITH


Er y bu'r gwanwyn yn un oer, mae'r coed yn ôl yn eu dail, mae'r gwenoliaid wedi dychwelyd ac mae'r adar yn canu.

Yn ystod cyfnod mor heriol, gall cylch oesol byd natur gynnis cysur arbennig i ni. Yma yn Tir Coed, rydym wedi dychwelyd i'n gwaith wrth i'r tymhorau newid.

Yn dilyn cyfnod o hyfforddiant a gwaith paratoi dwys cyn cyflwyno ein cymhwyster newydd a gydnabyddir yn genedlaethol, Gofalu, a llawlyfrau digidol, mae staff Tir Coed yn falch o fod yn ôl yn gwneud yr hyn a wnawn orau; darparu sgiliau awyr agored, hyfforddiant a gweithgareddau lles yn y goedwig - er ein bod yn gweithio gyda nifer yn llai o hyfforddeion ar bob safle eleni er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau cadw pellter cymdeithasol a lleihau risg haint Covid.




Yn ystod mis Mai, cynhaliwyd Croeso i'r Coed - ein cyrsiau rhagflas ymarferol 5-diwrnod - yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, a llwyddodd 14 o gyfranogwyr i



gwblhau'r cyrsiau hyn.


Bellach, mae ein cyrsiau haf 12-wythnos wedi cychwyn ac mae hyfforddeion eisoes yn gweithio tuag at sicrhau cymhwyster Gofalu ac yn defnyddio ein platform dysgu digidol newydd.



Mae'r llawlyfr digidol yr ydym yn ei beillota yn unigryw i Tir Coed, ar ôl iddo gael ei greu a'i ddatblygu yn ystod y cyfnod clo er mwyn gwella hygyrchedd a chynhwysiant, yn ogystal â meithrin hyder, sgiliau digidol a chyflogadwydd hyfforddeion.

Mae hwn yn brofiad newydd i Arweinwyr Gweithgarwch a Hyfforddeion, a mawr obeithiwn y bydd yn ehangu'r profiad dysgu mewn ffordd gadarnhaol.

Rydym wedi cael nifer fawr o ymholiadau a cheisiadau ar gyfer y cyrsiau haf, ac mae pobl yn awyddus i fynd allan i'r awyr agored unwaith eto a gwneud rhywbeth pwrpasol ar ôl treulio cyfnod mor hir ar wahân. Dewisom 24 o hyfforddeion ar draws y bedair sir i fynychu'r cyrsiau Gwaith Coed Coetir achrededig.



Yn Sir Benfro, cynhaliodd Tir Coed 2 sesiwn yn ysgol Gynradd Neyland, a fynychwyd gan 22 o unigolion.


Yn y cyfamser, mae Arweinwyr Gweithgarwch - mewn partneriaeth gyda phrosiect Addasu gyda'n Gilydd Cymunedau Arfordirol o Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau - wedi bod yn gweithio gyda phlant a staff mewn 4 ysgol i blannu 400 o goed a gyflenwyd gan y Gwirfoddolwyr Cadwraeth trwy gyfrwng eu prosiect I Dig Trees.

Dywedodd Bryony Rees, Cydlynnydd Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro: "Rhaid i mi ddweud, mae wedi bod yn rhyfeddol. Roedd y plant wedi cael amser arbennig. Roedd hi'n wych eu gweld yn rhedeg o gwmpas y coetir yn hapus ac yn gwenu. Dywedodd yr athrawon bod y myfyrwyr wedi dychwelyd i'r ysgol gan ganmol y ddarpariaeth yn fawr - ac o ganlyniad, dywedodd y pennaeth, Clare, y byddai ganddi ddi-ddordeb mewn ymweld â'r coetir yn fwy rheolaidd.

Mewn ardal arall, mae tîm Cwm Elan wedi gwneud gwaith gwych wrth fanteisio i'r eithaf ar yr hyn y mae byd natur yn ei ddarparu trwy greu meinciau atgofion gan ddefnyddio pren o onnen brydferth a oedd wedi cwympo ar yr ystad, gan adael rhywbeth i bobl leol ei fwynhau.



Yn ogystal, mae Tir Coed wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Gronfa Gymunedol Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol ar gyfer ein Prosiect peilot AnTir yng Ngheredigion yn ystod yr haf eleni. Bydd y peilot yn darparu sesiynau gweithgarwch diddorol a chwrs 10-wythnos er mwyn cynnig cyflwyniad i'r cyfranogwyr i gysyniadau ac arfer rheoli tir mewn ffordd gynaliadwy a thyfu eu bwyd eu hunain.




Cychwynnodd y gweithgareddau wedi'u hariannu y mis hwn gyda 3 sesiwn weithgarwch addas i deuluoedd yng ngerddi Canolfan Gymunedol Penparcau. Yn ogystal, dyfarnwyd pecyn Mannau Lleol er mwyn Datblygu Natur i ni gan Cadwch Gymru'n Daclus, a fydd yn rhoi offer, adnoddau a deunyddiau i ni er mwyn i ni sefydlu ein safle tyfu AnTir yng Ngheredigion, yng Ngerddi Tyllwyd yn Llanfarian.

Dros y 6 mis diwethaf, bu Tir Coed yn datblygu ac yn darparu gweminarau ar-lein lle y bu modd i aelodau'r cyhoedd ymuno â staff trwy gyfrwng darllediadau Zoom byr ar deithiau cerdded mewn coetiroedd, sesiynau tiwtorial ymarferol, cwisiau a sesiynau dan do ac yn yr awyr agored. Os na lwyddoch chi i fynychu'r darllediadau, gallwch droi atynt o hyd at ein sianel YouTube.



Wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio a'r haul yn gwenu o'r diwedd, mawr obeithiwn y byddwch yn cael y cyfle i archwilio yn yr awyr agored, a mwynhau ein coetiroedd hyfryd.




SUMMER IS HERE AND TIR COED IS BACK IN BUSINESS


Even though it was a cold spring, the trees are back in leaf, swallows have returned and bird song fills the air.

In such challenging times we can find reassurance in the enduring cycle of nature and immerse ourselves in the comfort that brings. Here at Tir Coed, the change of seasons has seen us getting back to work.


Following a period of intense training and preparation ahead of the introduction of our new nationally recognised qualification Gofalu and digital workbooks, Tir Coed staff are happy to be back doing what we do best; delivering outdoor skills, training and wellbeing activities in the woods - although in order to comply with social distancing guidelines and reduce the risk of Covid infection, we are working with a smaller number of trainees on each site this year.



During May, Welcome to the Woods - our 5-day practical taster courses - ran in Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire with 14 participants successfully completing the courses.



Our 12-week summer courses are now underway with trainees already working towards achieving the Gofalu qualification and using our new digital learning platform.



The digital work book we are piloting is unique to Tir Coed, having been created and developed over lockdown to improve accessibility and inclusivity as well as increasing confidence, digital skills and employability for trainees.

This is a new experience for Activity Leaders and Trainees, which we hope will expand the learning experience in a positive way.


We have had a lot of enquiries and applications for the summer courses with people keen to get back outdoors and do something purposeful after such a long period of isolation. We selected 24 committed trainees across the four counties to attend the accredited Woodland Carpentry courses.



In Pembrokeshire, Tir Coed held 2 sessions at Neyland Primary school with 22 attending. Meaning, Activity Leaders - in partnership with the Coastal Communities Adapting Together project from the Milford Haven Port Authority - have worked with children and staff at 4 schools to plant 400 trees supplied by the Conservation Volunteers through their I Dig Trees project.

Bryony Rees, Pembrokeshire Outdoor Schools Coordinator, said: "What can I say? It has been amazing. The kids had a great time. It was fab to see them running around the woodland happy and smiley. The teachers said the students had gone back to school with excellent reviews - so much so, that head teacher Clare said she would be interested in making more regular visits to the woodland.

Elsewhere, the Elan Valley team has done a great job in making the most of what nature provides by creating memory benches from timber milled using a beautiful ash tree that had come down on the estate to leave a lasting legacy for locals to enjoy.



Tir Coed has also been successful in gaining funding from the National Lottery's Awards for All Community Fund for our AnTir Project pilot in Ceredigion this summer. The pilot will deliver engaging activity sessions and a 10-week course to introduce participants to the concepts and practice of sustainable land management and growing their own food.



The funded engagement activities began this month with 3 family friendly activity sessions in Penparcau Community Centre grounds. We have also been awarded a Local Places for Nature Development package from Keep Wales Tidy, which will give us tools, resources and materials to set up our Ceredigion AnTir growing site Gerddi Tyllwyd in Llanfarian.

Over the last 6 months Tir Coed developed and delivered online webinars where members of the public have been able to join staff via live Zoom broadcasts for woodland walks, practical tutorials, quizzes, and outdoor and indoor sessions. If you missed the broadcasts you can still access them via our YouTube channel.

With restrictions finally lifting and the sun shining at last, we hope you all get the opportunity to explore the great outdoors and enjoy our wonderful woodlands.

